LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Mawrth/Ebrill 2023 Cyfrol 94 Rhif 2




Doedd Tomos ddim yno pan wnaeth Iesu ymddangos, (Tomos oedd yn cael ei alw 'Yr Efaill' – un o'r deuddeg disgybl). Dyma'r lleill yn dweud wrtho, "Dŷn ni wedi gweld yr Arglwydd!"
Ond ei ymateb oedd, "Nes i mi gael gweld ôl yr hoelion yn ei arddyrnau, a rhoi fy mys yn y briwiau hynny a rhoi fy llaw i mewn yn ei ochr, wna i byth gredu'r peth!"

Wythnos yn ddiweddarach roedd y disgyblion yn y tŷ eto, a'r tro hwn roedd Tomos yno gyda nhw. Er bod y drysau wedi'u cloi, daeth Iesu i mewn a sefyll yn y canol a dweud, "Shalôm!" Trodd at Tomos a dweud, "Edrych ar fy arddyrnau; rho dy fys i mewn ynddyn nhw. Estyn dy law i'w rhoi yn fy ochr i. Stopia amau! Creda!" A dyma Tomos yn dweud, "Fy Arglwydd a'm Duw!" "Ti wedi dod i gredu am dy fod wedi fy ngweld i," meddai Iesu wrtho. "Mae'r rhai fydd yn credu heb weld yn mynd i gael eu bendithio'n fawr." Io.20

## Cinio Gŵyl Ddewi

Am y tro cyntaf ers cyn cofid fe gynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi gennym i ddathlu gŵyl ein nawddsant a hynny yng nghlwb golff yr Eglwys Newydd ar y 1af o Fawrth. Daeth criw ardderchog o aelodau a ffrindiau at ei gilydd i fwyta, dathlu a chymdeithasu mewn awyrgylch llawen. Roedd yn eithriadol o braf cael bod gyda'n gilydd fel hyn. Croesawyd pawb ac offrymwyd gras bwyd gan y gweinidog ac yna fe fwytawyd gwledd flasus nes yr oeddem wedi cael ein gwala a'n gweddill. Ein siaradwr gwadd eleni oedd un o'n haelodau sef John Hayes. Cafwyd sgwrs amserol ganddo ar y testun "Gwinllan a roddwyd…"
Ceir crynodeb o'i sgwrs ar dudalen 8 a 9 o'r Llusern. Hoffem ddiolch o galon i Eynon a Delyth Williams am drefnu'r cinio.



# Cyfarfod Trefnu

Datblygiad difyr iawn yn hanes Ebeneser oedd cynnal Cyfarfod Trefnu ar nos Lun 27 Chwefror yng nghaffi’r Roundabout. Bwriad y cyfarfod oedd ystyried ein cenhadaeth leol yng Nghaerdydd, yn benodo yn yr Eglwys Newydd a Grangetown. Pa ddulliau a chyfryngau y gallwn eu defnyddio i ymestyn allan yn ymarferol tuag at y gymuned Gymraeg? Un amod a osodwyd cyn y cyfarfod oedd nad oedd hwn i fod yn siop siarad arall a bod ffrwyth ymarferol yn gorfod deillio o’r drafodaeth. Daeth criw da a brwdfrydig at ei gilydd gyda nifer o syniadau, gormod i weithredu arnynt ar unwaith. Roedd hynny’n galonogol iawn ac awydd yn ein plith i bontio fel eglwys i Iesu Grist gyda’r gymuned.

Erbyn diwedd y cyfarfod roedd 3 cynllun yr oeddem wedi eu dewis i weithredu arnynt.1. Pontio yn well gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg gan gychwyn gydag Ysgol Melin Gruffydd. Ymddiriedwyd y gwaith hwn i John Hayes ac Alun Tudur.

2. Gwella ein cyflwyniad digidol ar y we. Gwirfoddolodd Alice Jeffs a Carys Mair Jones i ddatblygu hyn. 3. Paratoi taflen i’w dosbarthu i gartrefi yn yr Eglwys Newydd. Ymddiriedwyd y gwaith i Huw Aaron, Gwilym Dafydd ac Arfon Jones.

Penderfynwyd cyfarfod eto ar nos Lun 26ain Mawrth er mwyn trafod sut mae pethau yn datblygu gyda’r prosiectau ac un neu ddau o syniadau eraill.

Diolch o galon i bawb ddaeth i’r cyfarfod hwn ac am eich brwdfrydedd dros waith yr Arglwydd.

---

**Oedfa’r Sul -** Llongyfarchiadau mawr i Carys Mair Jones am baratoi a chyflwyno Oedfa’r Sul ar Radio Cymru. Testun yr oedfa oedd gorymdaith yr Arglwydd i mewn i Jerwsalem ar Sul y Blodau. Pwysleisiodd fod yr Iesu yn troi safonau’r byd hwn wyneb i wared ac yn dangos grym gostyngedig Duw yn dod â iachawdwriaeth i’r byd. Darlledwyd yr oedfa ar ddydd Sul 26 o Fawrth a gellir gwrando arni ar *app* BBC Sounds.

---




**Cylchgronau - O**s hoffech gael copi o’r *Tyst* cysylltwch gydag Alison Jones. Os hoffech gael copi o’r *Cristion* cysylltwch gydag Arwel Williams ac os hoffech gael copi o fyfyrdodau *Gair y Dydd* cysylltwch gyda Petra Bennett. Os hoffech gael copi o’r Dinesydd cysylltwch gyda Gwilym Dafydd.

# Dydd Gweddi’r Byd

**D**ydd Gwener, 3 Mawrth, oedd Dydd Gweddi’r Byd eleni. Cynhaliwyd gwasanaethau ledled Cymru fel rhan o’r digwyddiad byd-eang hwn. Yma yng Nghaerdydd yn y Tabernacl yr Ais y cynhaliwyd y cyfarfod. Mudiad Eciwmenaidd Byd-eang a arweinir gan ferched yw Dydd Gweddi’r Byd, a gwahoddir gwledydd gwahanol i baratoi’r gwasanaeth yn flynyddol. Chwiorydd Taiwan oedd wedi paratoi’r gwasanaeth eleni, a’r thema oedd ‘Clywais am eich ffydd’, yn seiliedig ar Effesiaid 1:15-16. Aeth cynrychiolaeth dda o Ebeneser i’r cyfarfod a diolchwn i Alison Jones am gydlynu ar ein rhan fel eglwys. Ebeneser fydd yn gyfrifol am y cyfarfod hwn y flwyddyn nesaf ac edrychwn ymlaen at groesawu ffrindiau o eglwysi eraill.



---

## Llongyfarchiadau

Pen-blwydd hapus iawn i Alun, ein Gweinidog, wrth iddo ddathlu 28 o flynyddoedd o weinidogaeth yn Ebeneser, Caerdydd. Sefydlwyd Alun yn weinidog yn Ebeneser, Caerdydd ar 1 Ebrill, 1995. Diolchwn i’r Arglwydd am ei waith a’i wasanaeth yn ein plith, am ei dystiolaeth gadarn i’r Arglwydd Iesu, am ei gyfeillgarwch a’i ffyddlondeb. Dymunwn pob bendith iddo ef a Vikki a’r teulu.

## Llanw

Cynhelir Gŵyl Gristnogol Llanw eleni yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar Ebrill 10 - 13. Gŵyl yw hon ar gyfer y teulu cyfan gyda gweithgareddau addas ar gyfer pob oed. Gellir aros am y tridiau neu daro heibio am ddiwrnod yn unig. Y prif siaradwr fydd Stuart Bell ac fe geir sesiynau hefyd gyda John a Rachel Settatree, Simeon Baker, Arfon Jones, a Nan Powell-Davies. Dymunwn bob bendith i’r ŵyl a gweddïwn y bydd yr Ysbryd Glân yn bendithio'r holl drefniadau a’r gweithgareddau.

# NEWYDDION

**Cleifion**

Mae Glesni Whettleton, Llysfaen, wedi bod yn Ysbyty'r Brifysgol am rai wythnosau yn dilyn llawdriniaeth.
Mae Helen Hilling, Llandaf, yn parhau i dderbyn triniaeth yn Ysbyty Felindre.
Nid yw Margaret Jones, Yr Eglwys Newydd, wedi bod yn hwylus yn ddiweddar.
Mae Elisabeth Pierce, Penylan, yn Ysbyty'r Brifysgol ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth.
Mae Hazel Doull, Rhiwbeina, yn Ysbyty'r Brifysgol yn derbyn triniaeth.
Cofiwn am ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal: Rosaline Bowen, Beti Pierce, Mair Bennett, Delor Wedlake, Hazel Doull, Rhiannon Jones, Mair Evans. Margaret Jones. Cofiwch weddïo drostynt a chodi'r ffôn am sgwrs.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Rachel, Cynan, Seth ac Efan yn eu profedigaeth. Bu farw nain Rachel yn ddiweddar.
Cydymdeimlwn gydag Arfon, Rachel, Carys Mair, Seren, Ryan a Tudur yn eu galar. Bu farw tad Arfon a Tudur ar y 29/03

**Genedigaeth:** Testun llawenydd mawr oedd clywed am enedigaeth Efan Jac Llwyd ar yr 28ain Chwefror. Llongyfarchiadau mawr iawn i Rachel, Cynan a Seth ar ddyfodiad y bychan. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn eich cynnal a'ch hamddiffyn fel teulu i'r dyfodol. Croeso mawr i ti Efan i'n plith.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Charlie, Carl ac Osian Morris ar enedigaeth Nia ar 16eg Chwefror.

**Llongyfarchiadau** : - ….i Lowri Tudur ar dderbyn swydd gyda Llywodraeth Cymru. Bydd Lowri'n gweithio yn swyddfeydd y Llywodraeth ym Mharc Cathay, gan ganolbwyntio ar waith gweinyddol o fewn yr Uned Gyfieithu.

**Penblwyddi:** Fe ddathlodd dau o deulu Ebeneser ben-blwydd go arbennig yn ddiweddar.

Ar yr ail o Fawrth fe ddathlodd Arwel Peleg Williams ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed. Ymgynullodd teulu a ffrindiau i nodi'r achlysur a daeth Richard yr holl ffordd o'r Unol Daleithiau i fod yn rhan o'r dathliad.

Ar yr 20fed Mawrth fe gyrhaeddodd Arfon Jones oed yr addewid. Cawsom gyfle i ganu pen-blwydd hapus iddo yn oedfa'r bore a bu'n nodi'r achlysur gyda'r teulu.

Llongyfarchwn y ddau ar gyrraedd y cerrig milltir nodedig hyn a dymunwn bob iechyd a llawenydd iddynt i'r dyfodol.

## Arwel - Diolch

Mae Arwel yn ddiolchgar i'r eglwys ac i unigolion am eu cyfarchion caredig ar gyrraedd carreg filltir arbennig ar ei ben-blwydd mis Mawrth. Cafodd ddathliad anrhydeddus a hapus. Hyfryd oedd cael cwmni Richard am yr wythnos i rannu'r achlysur. Dywedodd Arwel: "Mae gen i gymaint i fod yn ddiolchgar amdanynt ac mae fy ffydd ac Eglwys Ebeneser wedi ac yn parhau i fod yn rhan annatod o hwnnw"

## Elusen – DEC

Yn dilyn y daeargryn trychinebus fu ar y ffin rhwng Syria a Thwrci penderfynasom fel eglwys i godi arian tuag at Apêl Argyfwng DEC er mwyn cynorthwyo'r dioddefwyr. Gwnaeth Cynan Llwyd fideo, er mwyn inni ei chwarae yn y gwasanaethau yn tynnu sylw at erchyllterau'r sefyllfa. Lladdwyd mwy na 50 mil o bobl ac fe anafwyd llawer mwy. Dinistriwyd a niweidiwyd dros 250,00 o adeiladau yn cynnwys ysbytai ac ysgolion. Anfonodd Ebeneser dros £1500 i'r apêl trwy elusen Tearfund. Diolch yn fawr ichi am eich haelioni.

### Elusennau 2023

Yn ystod y 6 mis cyntaf o'r flwyddyn y mae argymhelliad gan y diaconiaid ein bod yn codi arian er budd un o brosiectau **Tearfund**. Ym mis Chwefror bydd Cynan Llwyd, Cynrychiolydd Tearfund Cymru yn dod i rannu gyda ni am y gwaith.

Ym mis Mehefin 2023 bydd **Undeb yr Annibynwyr** yn lansio apêl Columbia mewn cydweithrediad â **Chymorth Cristnogol** fydd yn parhau am flwyddyn. Mae'r diaconiaid am argymell i eglwys Ebeneser i gefnogi'r apêl hon.

**Cludo:** Y mae nifer o wirfoddolwyr yn barod i roi lifft i unrhyw un ohonoch sydd yn awyddus i ddod i'n cyfarfodydd. Cysylltwch gydag Alun 07814 536208 er mwyn inni drefnu eich cludo. Y mae rhai eisoes yn rhan o'r cynllun er mwyn dod i oedfa'r pnawn.

**Y Dinesydd:** Hoffem ddymuno pen-blwydd hapus i'n papur bro lleol sef *Y Dinesydd* yn 50 oed. Yn fisol y mae Ebeneser wedi cael cyfle i rannu ychydig o'n hanes yn y cyhoeddiad pwysig hwn. Diolch i Tudur Jones am baratoi pwt yn fisol ar ein rhan. I Gwilym Dafydd am dderbyn archebion a dosbarthu ac i griw gweithgar Y Dinesydd sydd yn darparu'r rhifynnau safonol yn gyson ar ein cyfer.



# NEGES Y PASG

## Dau Emyn Dwy Adnod


**1. Y Groes** Am hynny anfonodd yr ARGLWYDD Dduw ef allan o ardd Eden, i drin y tir y cymerwyd ef ohono. - Genesis 3:23

*Yn Eden, cofiaf hynny byth,*
*bendithion gollais rif y gwlith;*
*syrthiodd fy nghoron wiw.*
*Ond buddugoliaeth Calfarî*
*enillodd hon yn ôl i mi:*
*mi ganaf tra bwyf byw.*

**D**yma un o emynau rhyfeddol William Williams, Pantycelyn, na fyddaf byth yn blino ei ganu. Un o'r rhesymau am hynny yw ei fod yn mynegi sylfaen y ffydd Gristnogol mor glir, sef cariad achubol Duw yn Iesu. Yn y pennill hwn fe gyfeirir at y cwymp i bechod yng Ngardd Eden (Gen. 3), sydd yn effeithio ar bawb a phopeth. "Yn Eden cofiaf hynny byth, bendithion gollais rif y gwlith," meddai Pantycelyn. Yn y dechrau fe greodd Duw fyd perffaith lle yr oeddem yn byw mewn perthynas gariadus gydag Ef. Ynddo ef yr oedd ein llawenydd a'n digonedd. Yn y berthynas hon roedd ystyr a phwrpas i fywyd, cyflawnder a dedwyddwch, tangnefedd ac iechyd. Rhoddodd Duw un rheol i bobl ei chadw ond dewisasant dorri'r rheol honno ac o ganlyniad fe gollwyd y bendithion. Torrwyd ein perthynas gyda Duw a daeth pechod fel agendor mawr i'n gwahanu. Yn sgil hyn daeth salwch a marwolaeth, casineb a gwrthdaro, tristwch a diffyg ystyr i'r byd. Dyma pam fod Pantycelyn yn dweud "syrthiodd fy nghoron wiw." Trwy dorri ein perthynas gyda Duw ein crëwr, torrodd y byd yr ydym yn byw ynddo a chwalwyd ein bywyd fel dynolryw.

Mor ddyrchafol yw ail ran y pennill lle y dywedir, "ond buddugoliaeth Calfarî enillodd hon yn ôl i mi: mi ganaf tra bwyf byw." Yn Iesu trefnodd Duw ffordd trwy ei gariad i bontio'r agendor rhyngom a thrwy Ei farwolaeth aberthol ar y groes deliodd gyda'r pechod sy'n ein gwahanu. Cosbwyd Iesu am ein pechod fel ein bod ni trwy gredu ynddo yn derbyn maddeuant llwyr am ein hanufudd-dod â bendithion iachawdwriaeth. Trwy fuddugoliaeth Iesu derbyniwn goron ein bendithion unwaith eto. Haleliwia. "Mi ganaf tra bwyf byw."

**2. Yr Atgyfodiad** *Dydy e ddim yma; mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dyna'n union beth ddwedodd fyddai'n digwydd. Dewch yma i weld lle bu'n gorwedd. - Mathew 28:6*



Yr Iesu atgyfododd
yn fore'r trydydd dydd;
'n ôl talu'n llwyr ein dyled
y Meichiau ddaeth yn rhydd:
cyhoedder heddiw'r newydd
i bob creadur byw,
er marw ar Galfaria
fod Iesu eto'n fyw.

Ond nid marwolaeth yr Iesu yw diwedd yr hanes oherwydd rhan fendigedig o stori ei farwolaeth yw ei atgyfodiad. Mae'r ddau beth yn annatod glwm. Mae'r atgyfodiad yn gwbl allweddol. Pe bai Iesu wedi aros yn farw yna byddai ei honiadau wedi bod yn gelwydd. Celwydd fyddai'r hyn a ddywedodd yn Ioan, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw;" Celwydd hefyd fydda'i hyn a ddywedodd yn Mathew,

*"Bydd y rheiny yn gwneud sbort am fy mhen, fy chwipio a'm croeshoelio. Ond yna ddeuddydd wedyn bydda i'n dod yn ôl yn fyw!" - Mathew 20:19*

Roedd yr atgyfodiad felly yn gyflawniad o waith achubol Iesu. Y darn olaf yn y jig-sô. Sut felly? Pam fod yr atgyfodiad corfforol mor bwysig? Wel, oherwydd pe bai Iesu wedi aros yn y bedd golygai nad oedd yr hyn a wnaeth wedi delio gyda'r pechod sy'n ein gwahanu oddi wrth Duw. Oherwydd canlyniad pechod yw marwolaeth. Nid oedd marwolaeth yn Eden tan ar ôl y cwymp. Felly, mae'r atgyfodiad yn profi fod gwaith Iesu i'n cymodi gyda Duw wedi ei gwblhau yn berffaith. Dyma pam fod Thomas Levi yn canu, "'n ôl talu'n llwyr ein dyled y Meichiau ddaeth yn rhydd". (Meichiau = surety, bail). Ar y groes talodd Iesu ein dyled gan ei fod wedi byw bywyd perffaith ar ein rhan a chymryd y gosb yn ein lle. Nid oedd gan farwolaeth hawl arno. Felly, trwy gredu ynddo Ef cawn faddeuant, bywyd newydd a bywyd tragwyddol. Mae hwn yn newyddion bendigedig sydd, yn trawsnewid ein bywydau ac yn trawsnewiid ein byd. Dyma pam y dywedir yn hydreus gan Levi, "cyhoedder heddiw'r newydd i bob creadur byw, er marw ar Galfaria fod Iesu eto'n fyw." Dathlwn a llawenhawn yn dwymgalon y Pasg hwn y fuddugoliaeth ryfeddol sydd gennym ynddo Ef. Mae'n fyw.

# Gwinllan a roddwyd...

*Dyma grynodeb o sgwrs gan John Hayes yng nghinio Gŵyl Ddewi Eglwys Ebeneser, ar Ddydd Gŵyl Dewi 2023.*

Un rheswm am ddewis y thema "Gwinllan a roddwyd i ni" yw'r cyswllt amlwg rhwng dathlu dydd Gŵyl Dewi ac anthem answyddogol Cymru, un o fy hoff emynau sef **'Gweddi dros Gymru'**, Lewis Valentine. Yr ail reswm yw mai "Gwinllan a roddwyd i ni" yw **arwyddair Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr** a fu'n rhan enfawr o'm bywyd. Wrth ganu emyn Lewis Valentine mewn oedfa yn ddiweddar, daeth llu o atgofion am fy nghyfnod yn Ysgol Plasmawr. Canwyd yr emyn hwn gan gôr yr ysgol yn y gyngerdd ar ddiwedd tymor yr hydref i nodi fy ymddeoliad, oedd yn brofiad emosiynol tu hwnt. Mae'n addas felly, ar ddiwrnod ein nawddsant fy mod yn rhoi sylw i anthem answyddogol Cymru a'r dôn 'Finlandia'.

## Finlandia

Cyfansoddwyd Finlandia gan Jean Sibelius o'r Ffindir yn 1899 fel rhan o brotest gudd yn erbyn sensoriaeth yr Ymerodraeth Rwsiaidd. Hwn oedd yr olaf o saith darn a berfformiwyd fel cyfeiliant i 'tableau' ddarluniai hanes y Ffindir. Roedd y perfformiad cyntaf ohono yn Ngorffennaf 1900 yn Helsinki. Er mwyn osgoi sensoriaeth Rwsia, roedd yn rhaid perfformio *Finlandia* o dan enwau amgen mewn cyngherddau; e.e., 'Happy Feelings at the awakening of a Finnish Spring', ac 'A Scandinavian Choral March'. Tua diwedd y darn cynhyrfus hwn, sy'n cofio brwydr genedlaethol pobl y Ffindir, clywir emyn-dôn melodïaidd *Finlandia*.


## Lewis Edward Valentine.

L Valentine ysgrifennodd eiriau'r emyn, 'Gweddi dros Gymru', a genir ar dôn *Finlandia*. Roedd Valentine yn wleidydd, yn weinidog gyda'r Bedyddwr, yn awdur, yn heddychwr ac yn genedlaetholwr. Yn 1936, gyda Saunders Lewis a D. J. Williams, bu'n rhan o'r criw losgodd Ysgol Fomio y Fyddin yn Penyberth, ger Pwllheli. O ganlyniad treuliodd naw mis yng ngharchar Wormwood Scrubs. Roedd y weithred hon yn adlewyrchiad o'i genedlaetholdeb a'i heddychiaeth, ac ysbrydolodd lawer o genedlaetholwyr dros y degawdau.

## Y winllan yn y Beibl

Roedd Valentine yn gwneud cysylltiad Beiblaidd wrth iddo gyfeirio at 'y winllan wen a roed i'n gofal ni' ym mhennill cyntaf yr emyn 'Dros Gymru'n gwlad'. Mae llu o gyfeiriadau at winllanoedd yn y Beibl. Ond a wyddoch chi mai **grawnwin y winwydden** â grybwyllir yn amlach nac unrhyw blanhigyn arall yn y Beibl? Roedd y winwydden a'r grawnwin yn bwysig yn ddiwylliannol ac economaidd

yn y Beibl; fe'u defnyddid hefyd yn symbolaidd. Roedd gwinwydden ffrwythlon yn symbol o Israel ufudd, tra bod grawnwin gwyllt neu winwydden wag yn cyfeirio at anufudd-dod Israel. Yn Ioan, pennod 15 dywed Iesu,



*"Fi yw'r wir winwydden a fy Nhad yw'r garddwr. Mae'n llifio i ffwrdd unrhyw gangen sydd heb ffrwyth yn tyfu arni. Mae'n tocio pob cangen sy'n dwyn ffrwyth fel y bydd yn dwyn mwy o ffrwyth. Fydd ffrwyth ddim yn tyfu ar gangen oni bai ei bod hi'n dal ar y winwydden. All eich bywydau chi ddim fod yn ffrwythlon oni bai eich bod chi wedi'ch cysylltu a mi'.*

"Gwinllan a roddwyd i ni" yw arwyddair Ysgol Plasmawr, dyfyniad o ail linell emyn L. Valentine; 'y winllan wen a roed i'n gofal ni'. Treuliwyd llawer o amser mewn gwasanaethau ysgol yn egluro arwyddocad y geiriau hyn. Roeddwn yn awyddus iddynt ddeall fod angen ymdrech a dyfalbarhad wrth ofalu am winllan ac yna cymharu'r ddelwedd o winllan gyda chymuned yr ysgol ac yn bwysiacach oll, ei chymharu â'r iaith Gymraeg.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae'r iaith Gymraeg yn rodd i ni fel cenedl ac os na wnawn ni ofalu amdani, ei pharchu a'i meithrin, yna mae perygl ei cholli. Mae ehangder Saeseng fel iaith ryngwladol yn fygythiad i ieithoedd lleiafrifol yn fyd-eang, ac mae angen i ni gydnabod ein dyled i aberth a safiad egwyddorol rhai fel Lewis Valentine, Saunders Lewis, Gwynfor Evans am y ffaith ein bod yn byw mewn gwlad ddwyieithog.

## Gwinllanoedd Cymru

Yn ddiweddar bu Beth a finnau yn cyflawni gwaith maes i winllanoedd tra ar wyliau ac rydym wedi mwynhau'r profiad o flasu gwin yn Tuscany ac yn Franschhoek yn Ne Affrica. Parhawn i ymchwilio'r maes hwn wrth ymweld ag ambell *chateau* neu *cave* gwin yn Ffrainc fis Medi. Mae un o ffrindiau Beth yn berchen ar winllan yn Llanerchaeron, ger Aberaeon, o'r enw **'Llaethliw'.** Buddsoddodd Sue a Richard Evans yn y winllan yn 2008 ac maent yn cynhyrchu gwin gwyn, coch, rhosliw a gwin pefriog i'r farchnad leol. Yno plannwyd grawnwin gwyn; Solaris, Orion, Seyval Blanc, Bacchus, Phoenix a Madeleine Angevine a grawnwin coch; Rondo, Regent a Pinot Noir. Maent yn awyddus i ddatblygu'r winllan ymhellach a chyrraedd marchnad ehangach.

GWINLLAN**LLAETHLIW**VINEYARD

Mae'r logo sydd ar boteli 'Llaethliw' yn cynrychioli llong sgwner a fu'n hwylio ar hyd arfordir Cymru yn y 19 ganrif.  Adeiladwyd y llong yng Nghei Newydd a'i hangori yn nghei Aberaeron. Hi oedd yr unig long a adeiladwyd yn Cei a gafodd enw Cymraeg.
Efallai gallwn drefnu taith blasu gwin i Lanerchaeron yn yr haf, gyda Chymdeithas Ebeneser, pe fyddai digon o ddiddordeb.

***Diolch i John am sgwrs hynod ddifyr. Os hoffech ddarllen yr erthygl cyflawn, cysylltwch â John Hayes.*

## Angor Grangetown

Un o'r cynlluniau arloesol Ebeneser a noddir gan Gyllun Buddsoddi ac Arloesi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yw Angor, Grangetown. Y mae hwn yn rhan o'n gweledigaeth i gyrraedd rhagor o'r 35 mil o Gymry Cymraeg sy'n byw yn y brifddinas. Ein gweledigaeth yw sefydlu cynulleidfa , Grist-ganolog, gyfoes yn Grangetown.  Er y nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, 10.2% yn ôl Cyfrifiad 2011, nid oes eto eglwys Gymraeg sy'n gwasanaethu'r gymuned. Fe olyga hynny fod dros 2,000 o'r boblogaeth yn y rhan hon o'r ddinas yn siarad Cymraeg. Wrth inni gyflawni'r gwaith hwn fe sylweddolwn, yn y dyfodol agos, y bydd rhaid cychwyn gweithgareddau Cristnogol Cymraeg mewn llawer i ardal yn ein gwlad lle mae'r dystiolaeth Gristnogol wedi darfod. Gobeithiwn y bydd ein profiadau ni o fantais ac annogaeth i Gristnogion eraill.
Bu'r flwyddyn ddiweddaf  (2022) yn un heriol. Caeodd Lufkin Coffee, y man cyfarfod gwreiddiol, yn gwbl ddirybudd ym mis Chwefror a buom am dros ddau fis heb fan cyfarfod addas.  Rydym yn credu bod lleoliad, naws a hygyrchedd y man cyfarfod yn bwysig i'n cenhadaeth er mwyn denu teuluoedd a chenhedlaeth iau. Ond ym Mis Ebrill fe gafwyd lleoliad newydd, addas, sef,  Canolfan 'Reach', Grangetown. Mae hon yn ganolfan sy'n cael ei defnyddio gan y gymuned leol ac felly yn dod a ni i gysylltiad â mudiadau a phrosiectau  eraill.
Er yr anghyfleustra fu y mae Angor Grangetown wedi parhau i gyfarfod yn wythnosol gyda chwrdd gweddi a chyfarfod o fawl pob yn ail Sul. Hoffem ddiolch i'r Undeb am y nawdd yr ydym wedi ei dderbyn sydd wedi bod yn help aruthrol i'r gwaith ac i'n gweledigaeth hirdymor. Erbyn hyn y mae rhwng 12 a 30 yn dod i'r cyfarfodydd yn gyson. Hoffem gyfeirio yma at elfennau heriol a chadarnhaol sydd i'r gwaith.

**Heriau**

Oherwydd natur yr hyn a wnawn y mae'n anodd meithrin cysondeb presenoldeb yn y rhai sy'n ymuno â ni. Daw rhai wrth gwrs yn gyson, daw eraill yn achlysurol tra bydd rhai yn dod unwaith. Y mae hyn yn effeithio ar ein paratoadau o ran lluniaeth a gwaith plant. Ni wyddom o wythnos i wythnos pwy ddaw. Hefyd oherwydd ein bod yn targedu oedolion ifanc a theuluoedd, fe olyga bod llawer o fynd a dod yn eu hanes. Y mae patrwm cymdeithasol teuluoedd yn llawer mwy hylifol nac y bu yn y gorffennol.

**Llwyddiannau**




1. Rydym wedi llwyddo i gyrraedd rhai teuluoedd sydd ddim yn mynychu unrhyw le o addoliad yng Nghaerdydd.
2. Rydym yn fwriadol wedi mynd ati i feithrin arweinyddion newydd, fel rhan o'r tîm trefnu ac i arwain cyfarfodydd un ai trwy, weddïo, darllen, rhannu profiad, arwain addoliad, technegu neu bregethu. E.e., Buom yn annog gŵr ifanc, oedd â doniau cerddorol i fod yn fawlweinydd. Tros gyfnod aeddfedodd ei ddoniau ac er mawr lawenydd inni dros yr haf fe'i penodwyd gan gylch o eglwysi cyd-enwadol yn Llundain i gyflawni gwaith plant ac ieuenctid. Hyderwn y bydd yn dychwelyd yn ôl i Gymru yn fuan gyda phrofiad ychwanegol i wasanaethu'r Arglwydd. Enghraifft arall o hyn yw bod menyw yn ei dauddegau wedi dechrau pregethu yn ddiweddar a hynny trwy anogaeth a chefnogaeth Angor. Mae hyn wedi bod yn wych.
3. Yn nhymor yr Adfent cynhaliwyd noson garolau yng Nghanolfan y Pavilion pryd y daeth criw o bobl leol a chyfeillion i ddathlu. Gwelwn y digwyddiadau hyn fel cyfle i gymdeithasu a gwneud cysylltiadau gyda Chymry Cymraeg Grangetown a hefyd i gydweithio gydag eglwysi eraill. Yn syml, mae pobl o bob math yn hoff iawn o'r Nadolig. Hefyd daeth Meilyr Geraint atom i gynnal oedfa Nadoligaidd oedd yn dathlu geni gwyrthiol y Meseia Iesu ac yn cyhoeddi'n llawen y newyddion da ddaeth ynddo Ef.

Gobeithiwn yn ystod y misoedd nesaf i barhau gyda'n gweithgareddau i dystio i'r Arglwydd Iesu yn egnïol. Yn y tymor canolig hoffem ddatblygu ein gwaith gyda phlant trwy sefydlu clwb plant mewn cydweithrediad ag Ysgol Gymraeg Hamadryad fydd yn cynnwys Clwb yn ystod gwyliau ysgol. Cynnal rhagor o weithgareddau cymdeithasol eu naws er mwyn dod i adnabod pobl yn well. A hefyd ymateb i'r angen cymdeithasol sydd yn Grangetown e.e., tlodi bwyd a thanwydd mewn cydweithrediad ag Ebeneser.

Meddai wrthyn nhw, "Mae'r cynhaeaf mor fawr, a'r gweithwyr mor brin! Felly, gofynnwch i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd. - Luc 10:2

Diolchwn i griw Angor am eu gweledigaeth, eu gwaith a'u ffydd dros y blynyddoedd sydd wedi bod yn ysbrydoliaeth mawr i ni yng ngwaith yr Arglwydd.

---

**Cymdeithas y Beibl**

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig i arweinyddion eglwysi gan Gymdeithas y Beibl yn y Pierhead ym mae Caerdydd yn ystod mis Mawrth. Bwriad y cyfarfod oedd ein hannog fel eglwysi i sylweddoli fod Duw yn parhau ar waith yng Nghymru, er yr argyfwng ysbrydol presennol a'i fod yn galw arnom i ddyfalbarhau. Arweiniwyd y cyfarfod gan Siân Rees, cynrychiolydd Cymdeithas y Beibl yng Nghymru, a chafwyd cyflwyniad hefyd gan Andy Ollerton. Tynnwyd ein sylw at ganlyniadau holiadur a gomisiynwyd gan Gymdeithas y Beibl a roddai ystadegau calonogol am yr angen ysbrydol mae pobl yn teimlo o fewn i'r Gymdeithas. Tynnwyd ein sylw hefyd at adnoddau a gynhyrchir ar ein cyfer.

Fel eglwys rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw gwaith Cymdeithas y Beibl yn tynnu sylw at ran allweddol y Beibl yn ein tystiolaeth ac yn darparu adnoddau i astudio'r Gair. Rydym yn freintiedig iawn yn cael eu cefnogi.



Siân Wyn Rees

# CLWB SÊR

Mae Clwb Sêr wedi bod yn cyfarfod bob bore Sul yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd ac rydym yn ceisio annog rhagor o deuluoedd i ymuno gyda ni yn gyson. Er rhaid cyfaddef fod hynny yn dalcen caled ar hyn o bryd. Hoffem eich annog i weddïo dros y gwaith hanfodol hwn ym mywyd eglwys Ebeneser gan ofyn i'r Arglwydd roi ar galon rhieni i ddod a'u plant i ddysgu am Iesu. Diolchwn yn fawr iawn i'r tîm ffyddlon sydd wrthi yn paratoi a dysgu'r plant o fis i fis am eu hymroddiad.

## Gweddïwn

Cymorth fi, O! Dduw, bob amser i gefnogi ac nid ddigalonni, i fod yn barotach i ganmol nag i gondemnio, i ddyrchafu nag i ddarostwng, i guddio nag i ddatguddio beiau eraill, er mwyn cariad Crist.

O! Grist atgyfodedig a dyrchafedig, preswylia ynof, fel y gallaf fyw a goleuni gobaith yn fy llygaid, gair y bywyd ar fy ngwefusau, a'th gariad Di yn fy nghalon.

Cymorth fi, O! Ysbryd sanctaidd, i'th geisio'n ffyddlon, i'th gadw'n ddiollwng, i'th ddangos yn ddi-feth, er mwyn yr Hwn a lwyr feddiannwyd gennyt. Amen.

**T. Glyn Thomas (1905 - 1973)**

## Adnodd Newydd

Elusen Gristnogol yw Open Doors sy'n tynnu sylw at yr erledigaeth chwyrn y mae Cristnogion yn eu wynebu ar hyd a lled y byd. Yn flynyddol y maent yn cyhoeddi adnoddau Cymraeg gwych sy'n rhannu gwybodaeth am y sefyllfaoedd enbydus y mae ein brodyr a'n chwiorydd yn eu dioddef gan ein hannog i gofio amdanynt ac i weddïo drostynt fel Eglwysi.

Yn ddiweddar fe ryddhawyd fideo Cymraeg ganddynt y gallwn ei ddefnyddio yn ein hoedfaon neu ar ein cyfryngau cymdeithasol er mwyn tynnu sylw at yr anghyfiawnderau hyn. Er mwyn gweld y fideo ewch i https://vimeo.com/806413202/ea1f1d2b9f



## Gwasanaethau ar CD

**O**s hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Tudur Jones.

## DILLAD A BWYD

**M**ae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd a'r dillad yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni.

**Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis.**

Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.

**Paradise Run -** Y mae elusen Enfys Gobaith am ailgychwyn y Paradise Run fydd yn bwydo'r digartref yng nghanol dinas Caerdydd pob nos am 8.00 yh. Mae Ebeneser yn codi tîm i helpu ar nos Sul 1 waith pob 4 wythnos. Os gallwch chi helpu anfonwch destun at Alun ar 07814 536208

**Recordiadau -** Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur.Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ein help.

**Tîm Digidol -** Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. E.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal -** Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul a hefyd gyda gweithredu rheolau hylendid COVID-19. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur am ei holl help.

## CYFRANIADAU

**Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2022. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gytfrwng Ebeneser.**

Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai:

Trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

# Calendr

*Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD
*Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA
*Cynhelir **Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis** yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown, CF11 7DT
7.30 - Pob nos Lun, cynhelir y **cwrdd gweddi** yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.


# EBRILL

04 Mawrth Y Cylch yn cyfarfod yng nghaffi'r Roundabout ac yna i ddilyn bydd oedfa fer yn neuadd y Methodistiaid.
07 Dydd Gwener y Groglith. Gorymdaith y Pasg. 9:30am - Sant Teilo; 10.00 - Capel y Methodistiaid; 10.30 - Eglwys y Santes Fair; 11.00 - Bethel; 11.30 - Y Tabernacl; 12.00 - Ararat.
2.00 - Oedfa Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Eglwys Dewi Sant. Pregethir gan y Parch. Dyfrig Lloyd
09 Dydd Sul. Sul y Pasg. 10.00 – Oedfa gymun yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 3.00 – Oedfa yng nghapel y Methodistiaid.
10 - 13 Gŵyl Gristnogol Llanw yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog
16 Dydd Sul. 10.00 – Oedfa yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 3.00 – Oedfa yng nghapel y Methodistiaid. Trefniadau pregethwr i'w cadarnhau.
23 Dydd Sul. 10.00 – Oedfa yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 3.00 – Oedfa yng nghapel y Methodistiaid. Arweinir gan Alun.
30 Dydd Sul. 10.00 – Oedfa yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 3.00 – Oedfa yng nghapel y Methodistiaid. Arweinir gan Alun.

**Mai**

07 Dydd Sul. 10.00 – Oedfa yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 3.00 – Oedfa gymun yng nghapel y Methodistiaid. Arweinir gan Alun.
14 Dydd Sul. 10.00 – Oedfa yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 3.00 – Oedfa yng nghapel y Methodistiaid. Arweinir gan Alun.

# PENBLWYDD HAPUS







Criw Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd ar ôl iddynt gyflwyno hanes Joseph yn Ysgol Glan Morfa Sblot

